2.16

# DWY GAN;

Y GYNTAF,

CAN DDIGRIF,

O

## HANES Y CREFFTWYR,

Wedi cyfarfod mewn

## GWYLMABSANT:

YR AIL,

## *Can i Ferched a Gwragedd.*

---

A GYHOEDDWYD GAN DAFYDD AMOS.

---

PE buasech chwi yma nos Sadwrn diwedda',
Yn gweled y dyrfa'n ymdaro'n ymdaro,
Yr oe'nt hwy'n mhob oedran yn fawr ac yn fychan,
A'u bwriad a'u hamcan ar fario, &c.
Yr oedd yno Bannwr yn fawr iawn ei ddwndwr,
A swegryn o Daeliwr yn swagro, &c.
Ac ynte'r Gwëydd seimlyd yn eu sialens hwy i faelyd,
Y Crydd a'r mynawyd yn pigo, &c.

2 Y Masiwn, wr cyndyn, a neidiai yn nghoryn
Y Saer oedd fel soryn yn suro, &c.
Y Nailer yn sgeler yn nyled y Tiler,
Y Tanner, Bookbinder, a'r Glwfer yn clwyfo,

0C3530571

'Roedd yno Felinydd, a Chwrrier, a Chribydd,
A Baker, a Gwegrydd, yn gwricco, &c.
Degymmwr, a Chlochydd, Bardd, 'Ffeiriad, Ystablydd
A'r Meddwyn a'r Cybydd yn cobio, &c.

3 Y Clock a'r Watchmaker am gleisio y Glazier,
Y Tinker, Sow-gelder, yn scoldio, &c.
Y Crwthwr, Telynor, Cyfreithiwr, a'r Doctor,
Heel-maker a'r Turner yn taro, &c.
Gwaddottwr, a Gweiriwr, a Cheibiwr, Aradwr,
A Throellwr, a Bennwr, yn pwnnio, &c.
Y Cutler, y Pedlar, y Sawdiwr, a'r Sailor,
Y Printer a'r Painter yn pwyntio, &c.

4 Joiner, Barilwr, y Braziwr, a'r Plwmmwr,
Y Ffermwr a'r Calchwr yn cylcho, &c.
Y Fforgeman a'r Ffounder, y Dreifiwr a'r Scholar,
Y Barber a'r Grinder yn grindo, &c.
Y Bugail, y Bellman, yr Hopswr, Exciseman,
A Hwcster penllydan yn llidio, &c.
Y Cwnstab o ddeutu, y Warden, a'r Baili,
Yn chwennych eu mysgu oddi yno, &c.

5 Gwelleifiwr, a Phresswr, Lliwydd, a Hettiwr,
Cloddiwr a Photiwr yn ffitto, &c.
Glôwr a Phasgettwr, hen Bibydd, Tobaccwr,
A chat o Lygottwr yn cwatto, &c,
Y Waiter Tagellog, Superviser anfoesog,
A'r Ffarier celwyddog yn chwyddo, &c.
Pysgottwr a Heliwr, y Ffowler a'r Bwtchwr,
Tôwr a Latteswr yn tosso, &c.

6 Yr hen Ysgybellwr, y Garddwr, Canwyllwr,
A Benni'r Sebonwr oedd yno, &c.
Yr Hangman a'r Jailer, y Lleidr, Thief-catcher,
Y Ffeiffer a'r Drummer yn drummio, &c.
Fe neidiau'r Gôf gerwin yn hŷ megis dewrddyn,
Fe friwiodd y delyn yn ddarnau, &c.
A'r crwth aeth yn 'sgyrion, 'rwy'n cofio'n dda ddigon,
Er maint oedd o ddynion a'i daliai, &c.

7 Fe neidiai'r Tafarnwr yn mrigyn y Bragwr,
Y Porthman a'r Siopwr yn siarpo, &c.
Y Turchwr a'r Hwpper, y Llifwr a'r Sadler,
Y Cordiwr a'r Collier yn cilio, &c.
A finnau yn chwerthin wrth wel'd y fath werin,
Trwy'r neuadd a'r gegin yn ymgicco, &c.
Fe neidiai'r hen Grispin fel ysbryd o goffin,
Gofynai pwy bwrlin oedd yno, &c.

8 Hen Sweep yn y cornel yr un liw a'r cythraul,
A neidiai yn ngafael â finnau, &c.
Bryd hynny mi giliais, ac yno gadewais,
Ni's gwn i pwy gafas y goreu, &c.
Gwell oedd gennyf drusto i'm traed nac i'm dwylo,
Ni thâl i mi fostio, ond mi dd'weda, &c.
A dyma i chwi ronyn o'r ymgyrch fu ynddyn',
Wfft, byth, i'r fath werin, mi wiria, &c.

# CAN,

I

# FERCHED A GWRAGEDD.

1 O FERCHED a gwragedd, o gwmpas y wlad,
Cydneswch i wrando, cewch glywed yn rhad,
O achos priodi, fel ffeilws i mi,
'Rwy'n ochain yn uchel o rybudd i chwi.

2 Mi aethum i'r tafarn, 'roedd gennyf swllt crwn,
Mi alwais yn llawen, nes darfu am hwn,
Mi aethum tua gartref pan welais fy mhryd,
Ni chefais i ddafan na's gwyddir pa bryd.

3 Mi aethum i'r gegin yn uchel fy nghloc,
Ni wyddwn i o'r chwedl nes oeddwn cael cnoc,
O'r scwlci a'r spratci! y galwai fi 'nawr,
Pob ergyd yn disgyn, nes o'wn i'n gwel'd fawr.

4 Pan welais i Mali mewn ofn a braw,
Mi holais fy mritis a'r bais yn fy llaw,
O hwriwch chwi Mali, dewiswch mewn pryd,
A Mali oedd yn ngafael â'i hen bais o hyd.

5 Bum i ddwy flynedd gydâ Mali fel gwas,
'Nawr 'rwyf fi gartref yn ddigon da 'nghas,
Diolchaf i'r cwrw ro'ws galon i mi,
Ennillais fy mritis, a'r hen bais ga's hi.

---

J. HARRIS, ARGRAFFYDD, CAERFYRDDIN.